

Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2024-2025

Diben

- 1.1 O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 (safon 66), mae'n ofynnol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol gyhoeddi adroddiad, yn y Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n ofynnol i ni ddarparu'r wybodaeth ganlynol;

(1) Rhaid i chi gynhyrchu adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r ffordd yr ydych chi wedi cydymffurfio â'r safonau ble y mae dyletswydd arnoch chi i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn (ble fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—

(a) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn dan sylw a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 60);

(b) nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 62);

(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 63) y swyddi newydd a gwag a hysbyseboch yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categorio fel swyddi lle— (i) roedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol; (ii) roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg wrth gael eich penodi i'r swydd; (iii) roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol.

(3) Rhaid i chi gyhoeddi adroddiad blynyddol yn ddim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn perthyn iddi.

(4) Rhaid i chi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan.

Adrodd

Cwynion

- 1.2 Yn 2024-25 ni chawsom unrhyw gwynion yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg.
- 1.3 Mae gennym weithdrefn gwyno ar waith sydd wedi'i chyhoeddi a fyddai'n ein galluogi i ddelio ag unrhyw gwynion ynghylch cydymffurfio â'n safonau. Rhennir adroddiad ar gwynion, gan gynnwys y rhai ynghylch cydymffurfio, gyda'n Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin bob blwyddyn.

Recriwtio a gweithwyr

- 1.4 Ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliwyd archwiliad sgiliau o'r holl staff mewn perthynas â'u

sgiliau Cymraeg yn unol â safon 62. O fis Rhagfyr 2023 ymlaen, rydym wedi gofyn i bob dechreuwr newydd gwblhau adran ar eu ffurflen dechreuwr newydd i nodi a oes ganddynt sgiliau Cymraeg. Yn 2024-25, ni ddatganodd unrhyw staff sgiliau Cymraeg.

- 1.5 Rhoddwyd cyflwyniad Cynllun Iaith Gymraeg i bob dechreuwr newydd i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd cydymffurfio â'r safonau.
- 1.6 Yn unol â safonau 63, diweddarwyd ein pro forma recriwtio i sicrhau ei bod yn ofynnol i bob rheolwr recriwtio ystyried a oedd '(i) sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol; (ii) roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg wrth gael eich penodi i'r swydd; (iii) roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol.' Yn 2024/25 penderfynwyd nad oedd unrhyw rolau a hysbysebwyd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg.

Camau eraill

- 1.7 Fel rhan o'n gwaith ailddatblygu gwefan yn 2024/25 gofynnwyd i bob Cyfarwyddiaeth ystyried fersiwn Gymraeg ein gwefan a lle bo angen, cyfieithwyd dogfennau i'r Gymraeg.
- 1.8 Cyfieithwyd yr Adroddiad Blynyddol, y Cynllun Busnes a dogfennau allweddol eraill i'r Gymraeg.
- 1.9 Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Bwrdd yng Nghymru a gwnaed gwaith i gyfieithu'r dogfennau perthnasol a bodloni'r gofynion mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd yng Nghymru.
- 1.10 Cynhaliwyd seminar polisi dwyieithog Saesneg-Cymraeg yn unig ar 25 Mawrth, gyda chyfieithu ar y pryd ar gael i bob siaradwr a mynychwr.
- 1.11 Wrth ysgrifennu neu adolygu polisïau mae'n ofynnol i ni gynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA), ac ers mis Rhagfyr 2023 mae ein EIA wedi cynnwys adran sy'n ystyried sut rydym yn bodloni safonau'r iaith Gymraeg.
- 1.12 Ni chawsom unrhyw ohebiaeth yn y Gymraeg gan aelodau'r cyhoedd yn ysgrifenedig na dros y ffôn yn 2024/25.
- 1.13 Cyhoeddwyd ein hymgyngoriad ar gyfer adolygu ein Safonau Rheoleiddio Da a'n Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig, gwnaethom hyn ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â Grŵp Cleifion Cymru i gasglu eu mewnwelediadau a'u safbwyntiau fel rhan o'r prosiect Adolygu Safonau.
- 1.14 Ym mis Ionawr 2025, lansiwyd fersiwn wedi'i hail-ddatblygu o'n gwefan. Fel rhan o'r broses honno, ychwanegwyd offeryn cyfieithu Cymraeg at ein gwefan sy'n golygu y gellir gweld pob tudalen o'n gwefan yn y Gymraeg gyda chyffyrddiad botwm.
- 1.15 Cynhaliwyd ymgyrch marchnata digidol yn annog y cyhoedd i chwilio am ein Marc Ansawdd wrth ddewis ymarferwyr gofal iechyd. Cynhyrchwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r hysbysebion, a chyflwynwyd y fersiwn briodol i ddefnyddwyr yn seiliedig ar eu dewisiadau iaith ar Facebook.
- 1.16 Cynhaliom ymgyngoriad ar y Safonau a ddefnyddiwn i asesu perfformiad y sefydliadau a oruchwyliwn. Cynhyrchom fersiynau Cymraeg o'r dogfennau a ddatblygwyd i gefnogi'r ymgyngoriad hwn. Roedd hyn yn cynnwys y cynnig ymgyngori, yr esboniad, yr arolwg cysylltiedig a'r e-byst atgoffa.
- 1.17 Ar gyfer ein Seminar Rheoleiddio Cymraeg a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025, cynhyrchom fersiynau Cymraeg o holl ddeunyddiau'r digwyddiad. Roedd ein tudalen

gofrestru Eventbrite hefyd yn y Gymraeg yn ogystal â phostiadau cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig. Roedd gwahoddedigion yn gallu nodi eu dymuniad i dderbyn yr holl ohebiaeth am y digwyddiad yn y Gymraeg. Yn y digwyddiad ei hun, yn seiliedig ar gais, darparwyd cyfieithu ar y pryd.

Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26

1.18 Yn 2025-26, byddwn yn;

- Adolygu sut rydym yn adrodd ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg i sicrhau bod hyn yn cael ei ddogfennu'n gadarn a'i fod yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) a'i fonitro ganddo
- Creu grŵp cyngori ar y Cynllun Iaith gyda chynrychiolaeth o bob Cyfarwyddiaeth i hyrwyddo'r cynllun a chefnogi cydweithwyr i'w gymhwyso
- Darparu hyfforddiant allanol i'r holl staff i ddeall cefndir a phwysigrwydd y Gymraeg.